Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ofsted

raising standards improving lives

**Adroddiad ar**

**ISA Training**
**Y Llawr Gwaelod**
**31 Ffordd yr Hen Gae**
**Parc Bocam**
**Pen-coed**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 5LJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Gradd** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd ISA Training (ISA) ym 1998 fel darparwr dysgu yn y gwaith dan berchnogaeth breifat. Mae ISA Training yn arbenigo mewn cyflwyno hyfforddiant Trin Gwallt a Harddwch. Mae'n cyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith ledled Cymru a De Orllewin Lloegr. Yng Nghymru, cyflwynir hyfforddiant gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn Lloegr gan yr Asiantaeth Ariannu Sgiliau (Skills Funding Agency) a'r Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc (Young People's Learning Agency).

Yn 2009, 66.2% oedd y gyfradd gyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hon oedd yr unfed gyfradd ar ddeg isaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn 2005, symudodd y gyfradd gyflogaeth o fod uwchlaw cyfartaledd Cymru i fod islaw ef, ac mae wedi parhau felly ers hynny.

Mae ISA yn cyflwyno Prentisiaethau Modern Sylfaen (PMS), Prentisiaethau Modern (PM), Cyn-Brentisiaethau, Adeiladu Sgiliau a Dysgu Hyblyg a Ariennir. Mae ISA hefyd yn cyflwyno rhaglenni Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru a rhaglenni Prentisiaeth Ifanc yn Lloegr.

Adeg yr arolygiad, roedd 504 o ddysgwyr yn hyfforddi. Mae dysgwyr yn dilyn y rhaglenni PMS, PM Adeiladu Sgiliau a rhaglenni Cyn-Prentisiaeth mewn trin gwallt, harddwch, gweinyddu busnes, arwain tîm, gwasanaeth cwsmeriaid a medrau hanfodol. Caiff pob un o'r dysgwyr eu cyflogi gan gwmnïau cenedlaethol a lleol ledled Cymru a Sir Gaerloyw.

Arolygwyd y darparwr gan Estyn yn 2005 ac fe'i hail-arolygwyd yn 2006. Ers y cyfnod hwnnw, mae'r uwch dîm rheoli a rolau staff eraill wedi cael eu hailstrwythuro. O ganlyniad, mae gan y darparwr arddull reoli fwy tryloyw, gwaith tîm gwell, morâl gwell ymhlith y staff a chyfraddau cyrhaeddiad sydd wedi gwella'n sylweddol ar draws pob rhaglen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad cyfredol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad cyfredol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframwaith ac yn ennill cymwysterau eraill arnynt yn dda, gyda thuedd ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyfraddau llwyddo dysgwyr yn dda gyda Phrentisiaid Modern Sylfaen yn perfformio ychydig yn well na Phrentisiaid Modern.

Mae bron pob un o'r dysgwyr y gwnaethom siarad â nhw yn llawn cymhelliant ac yn uchelgeisiol, ac yn ymfalchïo ac yn dangos proffesiynoldeb yn eu gwaith.

Mae'r ailstrwythuro yn 2009 wedi arwain at gyfeiriad strategol clir ar gyfer y cwmni. Mae gan reolwyr a staff forâl da, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn timau ac mae ganddynt ffocws cryf ar gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr ac ymdrechu am ragoriaeth.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da wrth roi'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar waith;
- mae uwch reolwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm effeithiol ac mae ganddynt gynllun olyniant clir ar gyfer y dyfodol;
- mae'r staff yn gweithio'n broffesiynol ac maent yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau;
- mae ansawdd yr hyfforddi a'r asesu yn dda;
- mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt yn dda; ac
- mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella’r cyfraddau cyrhaeddiad ar bob rhaglen;

A2 gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn ennill ei gymhwyster o fewn graddfeydd amser penodol, yn enwedig dysgwyr 16 i 19;

A3 gwella arsylwi addysgu a dysgu i roi barn glir am ansawdd a rhannu addysgu arfer orau gydag ymgynghorwyr hyfforddi; a

A4 chynnal a datblygu’r gwaith partneriaeth a’r cydweithio presennol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn bod cynllun gwella’r darparwr i APADGOS yn mynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad fel rhan o’r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt yng Nghymru a Lloegr yn dda. Ers yr arolygiad diwethaf, mae cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr ar bob rhaglen wedi gwella'n sylweddol.

Mae data'r darparwr heb ei wirio ar gyfer 2009-2010 yn dangos bod cyfraddau llwyddo dysgwyr wedi gwella ar draws pob rhaglen a maes dysgu. Mae dysgwyr sy'n dilyn y rhaglen Prentisiaeth Fodern Sylfaen yn perfformio ychydig yn well na'r dysgwyr ar y rhaglen Prentisiaeth Fodern. O'r dysgwyr sy'n dilyn y rhaglen cyn-brentisiaeth, gadawodd 45 dysgwr y rhaglen ac enillodd 31 dysgwr eu cymhwyster. Er bod y cyfnodau y mae rhai dysgwyr yn ennill eu fframwaith ychydig islaw norm y sector yng Nghymru, maent ymhell uwchlaw norm y sector yn Lloegr.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu lleoliadau gwaith ac mewn sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith. Mewn trin gwallt, harddwch, gwasanaeth cwsmeriaid a gweinyddu busnes, mae dysgwyr yn ennill medrau a gwybodaeth werthfawr i wella eu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ennill medrau ymarferol da iawn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o egwyddorion a chysyniadau trin gwallt. Roedd pob un o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweld yn llawn cymhelliant, yn uchelgeisiol ac yn hyderus yn eu gwaith.

At ei gilydd, mae safon gwaith ysgrifenedig dysgwyr mewn portffolios CGC yn dda iawn. Mae gwaith ymarferol dysgwyr yn dda, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfuniad lliw lle mae dysgwyr yn gweithio ar lefel uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol gan y cymhwyster. Roedd rhai dysgwyr yn torri gwallt gan ddefnyddio technegau a oedd yn fwy na'r rhai a oedd yn ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Yn gyffredinol, roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arferion gweithio'n ddiogel, yn enwedig wrth ddefnyddio lliw. Mae pob un o'r dysgwyr yn deall eu rhaglenni dysgu ac yn magu hyder personol a phroffesiynol wrth iddynt symud trwy eu hyfforddiant.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau hanfodol. Mae rhai dysgwyr yn gweithio tuag at lefelau uwch o fedrau allweddol. Caiff dysgwyr asesiad cychwynnol cyn iddynt ddechrau ar y rhaglen. Yn ystod eu hasesiad cychwynnol, caiff dysgwyr gyfle i ymgymryd â medrau hanfodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff Medrau Sylfaenol eu hasesu gan ddefnyddio BKSB on-line ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae staff hyfforddi yn cwblhau asesiadau ar ddechrau a diwedd y rhaglen hyfforddi dysgwyr. Mae'r darparwr yn monitro'r pellter y mae dysgwyr wedi'i deithio ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion cymorth yn dda iawn. O'r 36% o ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt anghenion Medrau Sylfaenol, mae bron i 50% wedi gallu manteisio ar gymorth.

Mae'r darparwr wedi dechrau cyflwyno medrau allweddol ar lefel uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer y fframwaith cymhwyster. Mae dau ddeg un y cant o ddysgwyr yn

gweithio tuag at fedrau allweddol ar lefel uwch ac mae rhai wedi ennill y cymwysterau hyd yn hyn.

Mae'r darparwr yn datblygu nifer o fentrau i hyrwyddo a gwella dysgu dwyieithog y dysgwyr. Mae pedwar aelod o'r staff cyflwyno a staff yr is-gontractwr yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn cyflwyno rhaglenni trwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd angen.

**Lles: Da**

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu hamgylchoedd hyfforddi a dysgu. Mae ymgynghorwyr hyfforddi, cyflogwyr a dysgwyr yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi yn dda ac yn datblygu perthynas dda sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr gyda'u tiwtor neu'u hasesydd. Mae safonau ymddygiad yn dda ac mae dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau elusennol yn y gymuned fel codi arian a chefnogi'r rhai sydd â salwch difrifol. Caiff digwyddiadau cymunedol eu hyrwyddo'n dda ymhlith dysgwyr a chyflogwyr trwy'r cylchlythyr chwarterol, 'Hot Gossip' a chan ymgynghorwyr hyfforddi.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r weithdrefn gwyno. Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o gadw'n ddiogel a gallant wneud dewisiadau gwybodus am fyw yn iach.

Mae gan ddysgwyr rif cyswllt y gallant ei ddefnyddio os ydynt yn teimlo bod angen cymorth arnynt gydag unrhyw beth sy'n peri pryder iddynt, gan gynnwys materion personol.

Caiff dysgwyr ystod o gyfleoedd i roi adborth ar eu profiadau hyfforddi a dylanwadu ar newidiadau i'r ddarpariaeth, a'u llywio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Mae ISA yn cynnig ystod o raglenni i gefnogi hyfforddiant a datblygiad dysgwyr yn y diwydiant trin gwallt a harddwch yn bennaf. Mae'r darparwr yn datblygu ac yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda chyflogwyr i roi hyfforddiant priodol i ddysgwyr. Rhoddir lleoliadau gwaith addas i ddysgwyr Adeiladu Sgiliau i ddatblygu medrau cyflogaeth defnyddiol a phrofi eu dewisiadau galwedigaethol.

Mae'r darparwr yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer asesu, hyfforddi a defnyddio medrau hanfodol dysgwyr. Mae dysgwyr yn elwa ar raglen drefnus o ddiwrnodau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith mewn ystod o leoliadau hygyrch a hyfforddiant yn y gwaith o ansawdd da. Mae hyfforddiant a chymorth medrau hanfodol wedi'u cynnwys yn y rhaglen diwrnodau hyfforddi, yn ogystal â sesiynau lles a gwaith thematig i hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o faterion cyfoes fel ailgylchu a chynaliadwyedd.

Cyflwynwyd Prosiect Oyster gan y darparwr yn 2009. Mae'r prosiect hwn wedi'i gynllunio i gyfoethogi ac ymestyn profiadau dysgwyr, er enghraifft trwy raglen cyfnewid dysgwyr lle mae dysgwyr yn treulio amser yn gweithio mewn salon gwahanol yng Nghymru neu Loegr. Bydd datblygu'r profiadau hyn ymhellach yn cynnig cyfle i ddysgwyr weithio mewn salonau yn Ewrop ac America. Mae hyn nid yn unig yn helpu dysgwyr i wella eu hunanhyder a'u hunan-barch, ond hefyd i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. Mae'r prosiect hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ymestyn eu profiad o waith arbenigol, er enghraifft creu wigiau a cholur theatraidd.

Mae'r darparwr yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu ystod eang o fedrau a chymwysterau priodol. Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfle i ennill medrau allweddol ehangach ac unedau CGC ychwanegol, er enghraifft. Yn ychwanegol, mae'r darparwr yn cynnal digwyddiad trin gwallt blynyddol yng Nghaerdydd, Salon Cymru, lle gall dysgwyr arsylwi dosbarthiadau meistr gan drinwyr gwallt enwog ac arddangos eu medrau a chystadlu yn erbyn dysgwyr o bob cwr o Gymru hefyd.

Mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd priodol i ddysgwyr gynnal a datblygu eu medrau Cymraeg. Caiff y cyfleoedd hyn eu hyrwyddo ar ddechrau rhaglenni'r dysgwyr, yn ystod y cyfnod ymsefydlu a thrwy gydol eu cyfnod yn hyfforddi. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn hyrwyddo datblygiad Cymraeg sgyrsiol syml gyda dysgwyr trwy eu hannog i ddysgu ymadrodd Cymraeg bob mis i'w ddefnyddio yn y gwaith. Mae'r darparwr wedi sefydlu tîm prosiect sy'n cefnogi rhoi strategaeth iaith Gymraeg y cwmni ar waith yn effeithiol.

Mae ISA yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae grŵp adnodd wedi datblygu ystod o ddeunydd defnyddiol i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr am faterion pwysig, er enghraifft Masnach Deg, dinasyddiaeth a newid yn yr hinsawdd. Mae'r adnoddau hyn yn rhoi cyflwyniad gwerthfawr i ddysgwyr i'r testunau hyn sy'n cael eu hyrwyddo bob mis gan ymgynghorwyr hyfforddi ac maent yn cynnwys cyfeiriadau a gwefannau defnyddiol i ddysgwyr eu defnyddio a datblygu eu dealltwriaeth o ADCDFE ymhellach.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r addysgu a'r asesu yn dda. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cyflwyno sesiynau dysgu wedi'u cynllunio'n dda sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn cynnig her ddigonol i sicrhau cynnydd dysgwyr. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn wybodus ynglŷn ag arddulliau dysgu dysgwyr unigol ac maent yn defnyddio strategaethau addysgu amrywiol i fodloni eu hanghenion. Mae safon yr adnoddau dysgu i gefnogi dysgu yn dda. Mae cynlluniau gwersi yn dangos cysylltiadau clir rhwng gweithgareddau ymarferol, theori, gwaith galwedigaethol a medrau hanfodol. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cytuno ar dargedau heriol gyda dysgwyr, sydd yn y mwyafrif o achosion yn ddigon heriol i sicrhau bod dysgwyr yn mynd ati'n gyson i fodloni'r disgwyliadau uchel a osodir ar eu cyfer.

Mae'r asesu wedi'i gynllunio'n dda, yn strwythuredig ac yn drylwyr. Mae'r adborth yn llawn gwybodaeth ac yn golygu bod y dysgwr yn gwybod beth yn union y mae wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddo/iddi ei wneud i wella. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn defnyddio cynlluniau gweithredu misol manwl i osod targedau tymor byr

ar gyfer dysgwyr rhwng adolygiadau. Caiff system coch, ambr, gwyrdd (RAG) ei defnyddio'n effeithiol ar y cynllun gweithredu i fonitro cynnydd dysgwyr unigol. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cadw cofnodion manwl o gyflawniadau dysgwyr. Mae cyflogwyr yn cymryd rhan yn dda mewn adolygiadau dysgwyr ac maent yn wybodus am y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud.

Mae gan ymgynghorwyr hyfforddi brofiad masnachol a gwybodaeth dechnegol gyfredol dda y maent yn ei defnyddio'n dda i egluro pwyntiau dysgu allweddol mewn cyd-destun diwydiannol. Mae ymgynghorwyr hyfforddi a staff cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i fodloni anghenion datblygu'r dysgwyr, yn enwedig wrth wella medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn darparu lefelau uchel o gymorth unigol ar gyfer dysgwyr ac maent yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda chyflogwyr gan greu amgylchedd dysgu da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr yn dda. Mae'n rhoi gwybodaeth glir a defnyddiol i ddysgwyr am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan staff y cwmni ac asiantaethau allanol ar ddechrau eu rhaglen. Caiff pob un o'r dysgwyr lyfrnod o wybodaeth wedi'i gyflwyno'n dda yn eu portffolios yn amlinellu cysylltiadau allweddol ac asiantaethau sy'n cynnig cyngor, arweiniad a chymorth. Caiff y wybodaeth hon ei thrafod gyda dysgwyr a'i hatgyfnerthu'n rheolaidd gan ymgynghorwyr hyfforddi mewn adolygiadau. Mae diwrnodau hyfforddi a gyflwynir gan y darparwr yn aml yn cynnwys sesiynau lles i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr am destunau yn gysylltiedig ag iechyd a gofal, fel camddefnyddio alcohol a chyffuriau, ysmygu ac iechyd rhywiol.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Caiff pob un o'r staff hyfforddiant priodol i hyrwyddo eu dealltwriaeth o drefniadau diogelu'r darparwr. Caiff pob un o'r dysgwyr wybod am bolisi a gweithdrefnau diogelu'r darparwr pan fyddant yn dechrau eu rhaglenni dysgu. Mae gan y darparwr swyddog cymorth dysgwyr sydd â chymhwyster mewn cyngor ac arweiniad.

Mae gan y darparwr drefniadau priodol ar waith ar gyfer monitro iechyd a diogelwch yn ei ganolfannau ac mewn adeiladau cyflogwyr.

Mae gan y darparwr ddau aelod o staff profiadol ar gyfer medrau hanfodol. Mae dysgwyr yn elwa ar y cymorth y mae'r staff hyn yn ei roi wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a bywyd. Mae staff medrau hanfodol hefyd yn cefnogi datblygiad medrau siarad a gwrando dysgwyr sy'n bwysig iawn yn y diwydiannau trin gwallt, therapi harddwch a gwasanaethau cwsmeriaid. At ei gilydd, mae'r darparwr yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Yn y sesiynau a arsylwyd, cynhelir agwedd gref a chadarnhaol at ddysgu. Ym mhob achos, mae'r cyflogwyr yn cyflwyno agwedd broffesiynol, yn enwedig mewn

perthynas â delio â chwsmeriaid. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn atgyfnerthu amgylchedd dysgu yn barhaus, sy'n annog ac yn herio dysgwyr i wneud y gorau y gallant. Caiff dysgwyr eu gwneud yn ymwybodol o bolisïau'r darparwr sy'n ymwneud â pharchu a dathlu amrywiaeth trwy gydol eu rhaglen.

At ei gilydd, mae'r amgylchedd ffisegol ar gyfer dysgu a chyflwyno dysgu a hyfforddi yn dda. Mae adeiladau'r brif swyddfa a'r mannau ar gyfer dysgwyr yn dda iawn, yn fodern ac yn cynnwys offer da. Mae hyn yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer addysgu, hyfforddi ac asesu. Mae'r amgylchedd ar gyfer dysgu yn y gweithle yn dda ar y cyfan, gyda mannau tawel yn y salon ar gyfer trafodaethau rhwng y dysgwr a'r ymgynghorydd hyfforddi. Mae pob salon yn cynnig profiad da, realistig a masnachol ar gyfer pob dysgwr. Mae'r lleoliadau gwaith yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda. Mewn un salon trin gwallt, gallai sŵn y gerddoriaeth fod wedi amharu ar y sesiwn ddysgu, ond fe wnaeth yr ymgynghorydd hyfforddi ddelio â hyn mewn ffordd ddiplomatig.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y Rheolwr Gyfarwyddwr ac uwch reolwyr weledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad y cwmni. Mae ganddynt nodau clir, amcanion strategol a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad y cwmni, codi safonau a lles dysgwyr.

Yn sgil aildrefnu'r cwmni yn 2009, cafwyd rolau a chyfrifoldebau mwy eglur, morâl gwell ymhlith y staff, a rhoddwyd mwy o synnwyr o berchnogaeth iddynt, ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd a safonau'r sefydliad.

Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn a sut maent yn effeithio ar weithrediad llwyddiannus y sefydliad. Defnyddir diwrnodau corfforaethol yn dda i ledaenu gwybodaeth am berfformiad sefydliadol ac maent yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddi staff a gweithgareddau adeiladu tîm.

Mae ystod o gyfarfodydd tîm misol, ynghyd â chyfarfodydd un i un rheolaidd rhwng staff a rheolwyr yn darparu llinellau cyfathrebu da ar draws y sefydliad. Cefnogir cyfathrebu mewnol yn dda gan safle mewnrwyd.

Mae'r sefydliad yn monitro perfformiad ei staff yn dda. Mae system drylwyr ar waith ar gyfer gwerthuso staff, sydd hefyd yn cynnwys gwerthusiad 360° o'r holl reolwyr. Mae rheolwyr yn defnyddio deilliannau'r broses werthuso yn dda i nodi anghenion hyfforddi a datblygu staff ac anghenion strategol y sefydliad. Mae gan y sefydliad cynllun olyniant datblygedig ar waith i sicrhau ei ddyfodol.

Mae'r sefydliad wedi ymgymryd â rôl allweddol mewn rhoi strategaeth ar waith i fynd i'r afael ag agenda drawsnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy weithio'n agos gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW). Mae'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethol ar gyfer gwallt a harddwch (HABIA) ac mae'n cyfrannu'n allweddol at nifer o Rwydweithiau 14-19 sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanasesu (AHA) a chynllun datblygu ansawdd (CDA) y darparwr a'r prosesau ar gyfer hunanasesu, yn dda ac yn cael eu hymgorffori'n llawn ym mhob gweithgaredd gweithredol a strategol. Mae'r darparwr wedi cyflwyno gwelliant parhaus ar gyfer dysgwyr dros y tair blynedd diwethaf.

Caiff y cyfrifoldeb am ansawdd ei rannu rhwng y pennaeth gwasanaethau cymorth a'r pennaeth gweithrediadau. Mae'r trefniant hwn yn glir i bob un o'r staff. Mae hyn yn sicrhau bod y ffocws ar gyfer pob agwedd ar y busnes yn gwella'n barhaus. Mae'r darparwr yn gwrando ar ddysgwyr trwy arolygon amserol yn dda, ac mae wedi cynnal ei gynhadledd gyntaf i ddysgwyr yn ddiweddar. Mae hyn yn dilyn y gynhadledd lwyddiannus ar gyfer cyflogwyr, sy'n nodwedd dda o berthynas y darparwr gyda pherchnogion salon. Mae'r gynhadledd ar gyfer dysgwyr yn helpu llywio'r penderfyniadau a wneir ar gyfer mentrau yn y dyfodol, fel Salon Cymru. At ei gilydd, mae'r adborth gan ddysgwyr a chyflogwyr yn gadarnhaol iawn. Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr adborth o'u holl weithgareddau gwrando yn cael ei ddadansoddi'n dda a'i fod yn llywio'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ansawdd.

Mae'r pennaeth gwasanaethau cymorth a'r pennaeth gweithrediadau yn gweithio gyda'i gilydd yn agos iawn ac fe gânt eu cefnogi'n dda gan bob un o'r staff i reoli ansawdd a gyrru'r darparwr ymlaen ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r prosesau ansawdd yn cynnwys system dda ar gyfer gwybodaeth reoli sy'n olrhain cynnydd a chyflawniad dysgwyr. Mae cofnodion ymweliadau monitro gwirio mewnol, dadansoddiad o berfformiad dysgwyr ac ymgynghorwyr hyfforddi, a gosod targedau, wedi'u cynnwys yn y systemau MIS. Mae'r darparwr yn defnyddio ei CDA yn dda fel dogfen weithio ac mae'n darparu'r ffocws ar gyfer cyfarfodydd rheoli ar bob lefel.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y systemau gwybodaeth reoli yn agored i bob un o'r staff ei harchwilio. Mae uwch reolwyr yn defnyddio'r cyfleuster hwn yn dda iawn i fonitro perfformiad eu gweithrediadau, gan gynnwys perfformiad staff a'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud wrth gyflawni eu targedau cytûn. Mae'r gwiriwr mewnol arweiniol a'r rheolwr ansawdd yn arsylwi ymgynghorwyr hyfforddi yn dda iawn. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar rannu arfer dda mewn addysgu rhwng ymgynghorwyr hyfforddi.

Mae ISA Training wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y sefydliad drefniadau partneriaeth cryf ac effeithiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'n cydweithio'n dda mewn nifer o fentrau, gan arwain mewn datblygu arferion cydweithio lle bo'n briodol. Er enghraifft, mae staff yn rhannu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus gydag adran Gwallt a Harddwch coleg lleol. Mae'r sefydliad yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith partneriaeth gyda Rhwydweithiau Meysydd Dysgu 14-19 i fynd i'r afael ag agenda drawsnewid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cysylltiad hwn yn hyrwyddo statws dysgu yn y gwaith yn dda.

Mae gan y darparwr berthynas waith dda gyda chyflogwyr ac mae'n defnyddio'r berthynas hon yn dda i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer dysgwyr iddyn nhw eu hunain a sefydliadau hyfforddi eraill. Mae'r sefydliad hefyd yn gweithio'n agos gyda chwmni hyfforddi lleol i roi cyfle i ddysgwyr a staff ISA ddilyn cymwysterau lefel 4 mewn rheoli. Mae'r sefydliad yn rheoli ei is-gontractwr yn dda. Mae'r is-gontractwr yn defnyddio systemau a gweithdrefnau'r rhiant sefydliad i sicrhau cysondeb a chynnal ansawdd.

Mae'r sefydliad yn defnyddio proses asesu cymheiriaid flynyddol gyda darparwyr hyfforddi eraill yn effeithiol i wella perfformiad a rhannu arfer orau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae rheolwyr a staff yn monitro data ar ddeilliannau dysgwyr yn dda ac maent yn defnyddio data meincnod cenedlaethol yn effeithiol i lunio barnau ar berfformiad a gosod targedau realistig ar gyfer gwella.

Mae gan ISA ddigon o staff cymwys i weithredu'r sefydliad. Mae'r darparwr yn defnyddio pob un o'r staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u hamser. Mae gan ymgynghorwyr hyfforddi ddigon o adnoddau i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Caiff y staff gyfleoedd da i gael hyfforddiant priodol ac ennill cymwysterau priodol i helpu gwella eu perfformiad a'u rhagolygon gyrfa. Mae'r darparwr yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygiad staff ac mae ganddo gynllun sefydliadol clir ar gyfer datblygu staff sy'n nodi amcanion y cwmni a'r dulliau cyflwyno i fodloni'r amcanion hyn.

Mae'r sefydliad yn rheoli ei adnoddau'n dda. Mae'n monitro ac yn adolygu gweithrediad a phriodoldeb y salonau gwallt a harddwch bob blwyddyn. Mae methiant i fodloni safonau a gofynion ISA yn arwain at dynnu enw salon oddi ar restr o gyflogwyr y sefydliad hyfforddi.

Mae safon adeiladau ac adnoddau cyflogwyr yn dda ac yn cael ei monitro'n effeithiol gan y darparwr.

Mae'r sefydliad yn rheoli ei gyllid yn dda trwy gyfarfodydd rheolaidd am berfformiad ariannol.

At ei gilydd, mae deilliannau dysgwyr yn dda ac mae'r darparwr yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Mae’r ymatebion i holiaduron y dysgwyr a lenwyd cyn yr arolygiad yn dangos y byddai’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn argymell y darparwr hyfforddi hwn i bobl eraill. Mae staff hyfforddi yn helpu dysgwyr i ymgynefino yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen hyfforddi.  Nododd llawer o ddysgwyr a ymatebodd eu bod yn mwynhau eu dysgu.

# Atodiad 2

## T0000001 : I-SA Assessment & Training Ltd

### Darpariaeth DYYG – Cyfraddau Llwyddo yn ôl Sector/Maes Pwnc a'r Math o Raglen

| | 2007/08 | | | | | | 2008/09 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | I-SA Assessment & Training Ltd | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | | I-SA Assessment & Training Ltd | | | Cymaryddion Cenedlaethol | | |
| | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo | Gweithgare-ddau Dysgu a Gyflawnwyd | Gweithgare-ddau Dysgu a Derfynwyd | Cyfradd Lwyddo |
| **Yn ôl Sector / Maes Pwnc** | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | . | . | . | 12,145 | 17,650 | **69%** | . | . | . | 14,080 | 17,900 | **79%** |
| Addysg a Hyfforddiant | . | . | . | 2,125 | 2,530 | **84%** | . | . | . | 1,930 | 2,190 | **88%** |
| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | 70 | 105 | 66% | 10,070 | 13,680 | **74%** | 85 | 90 | 93% | 9,770 | 12,120 | **81%** |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | . | . | . | 1,140 | 1,545 | **74%** | . | . | . | 360 | 505 | **71%** |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | . | . | . | 9,575 | 12,715 | **75%** | . | . | . | 9,690 | 12,105 | **80%** |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | . | . | . | 5,675 | 8,050 | **70%** | . | . | . | 6,785 | 8,750 | **78%** |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | . | . | . | 4,080 | 5,790 | **70%** | . | . | . | 4,620 | 6,070 | **76%** |
| Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | 35 | 50 | 69% | 10,100 | 13,690 | **74%** | 90 | 105 | 86% | 9,440 | 11,775 | **80%** |
| Gwallt a Harddwch | 500 | 660 | 76% | 2,060 | 2,910 | **71%** | 535 | 650 | 82% | 2,140 | 2,690 | **80%** |
| Lletygarwch ac Arlwyo | . | . | . | 3,425 | 5,060 | **68%** | . | . | . | 2,485 | 3,420 | **73%** |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | . | . | . | 2,175 | 2,725 | **80%** | . | . | . | 1,910 | 2,285 | **84%** |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | . | . | . | 55 | 90 | **64%** | . | . | . | 10 | 10 | **100%** |
| Sector/Maes Pwnc heb ei nodi | 10 | 10 | 100% | 15,495 | 25,890 | **60%** | 50 | 55 | 89% | 20,325 | 28,125 | **72%** |
| **Cyfanswm** | 610 | 820 | 74% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 760 | 905 | 84% | 83,540 | 107,940 | **77%** |
| **B) Yn ôl Rhaglen** | | | | | | | | | | | | |
| Prentisiaethau Modern Sylfaen | 405 | 540 | 75% | 34,830 | 47,215 | **74%** | 485 | 595 | 81% | 33,200 | 41,755 | **80%** |
| Prentisiaethau Modern | 170 | 230 | 74% | 20,130 | 27,750 | **73%** | 205 | 225 | 91% | 21,110 | 26,460 | **80%** |
| Diploma Medrau Modern | 15 | 25 | 65% | 1,525 | 2,655 | **57%** | 0 | 0 | 100% | 1,235 | 1,675 | **74%** |
| Adeiladu Sgiliau | 20 | 25 | 77% | 21,480 | 34,160 | **63%** | 20 | 25 | 83% | 27,230 | 36,780 | **74%** |
| Rhaglen DYYG arall | . | . | . | 155 | 545 | **28%** | 55 | 60 | 90% | 770 | 1,270 | **61%** |
| **Cyfanswm** | 610 | 820 | 74% | 78,115 | 112,325 | **70%** | 760 | 905 | 84% | 83,540 | 107,940 | **77%** |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)

. dynodi nad yw'n berthnasol.

Mae'r rhifau wedi cael eu talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Janice Thomas AEM | Arolygydd Tîm |
| Stephen Miller AEM (Ofsted) | Arolygydd Tîm |
| Susan Scott | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrea Evans | Enwebai'r Darparwr |